# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-09-07)

**Dyddiad: 15 Tachwedd 2007**
**Amser: 9:30 - 12:30**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Mick Bates (Cadeirydd), Sir Drefaldwyn
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Alun Ffred Jones, Arfon
Lesley Griffiths, Wrecsam
Darren Millar, Gorllewin Clwyd
Karen Sinclair, De Clwyd
Brynle Williams, Gogledd Cymru
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Joanne Clinton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn Bresennol

Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Matthew Quinn, Cyfarwyddwr Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Georgina Haarhoff, Pennaeth yr Uned Strategaeth Gorfforaethol, Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Jasper Roberts, Pennaeth yr Uned Gwastraff ac Ansawdd yr Amgylchedd Lleol
Jocelyn Davies AC, Y Dirprwy Weinidog dros Dai
Francois Samuel, Pennaeth yr Uned Adeiladu, Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nododd fod Alun Davies AC wedi ymddiheuro.

### Eitem 2: Trafod y papur cwmpasu ar leihau gollyngiadau carbon ym maes trafnidiaeth

2.1 Cyflwynodd y Cadeirydd bapur cwmpasu'n gosod allan gwmpas arfaethedig yr ail bwnc yn ei ymchwiliad i leihau gollyngiadau carbon - lleihau gollyngiadau carbon ym maes trafnidiaeth.

2.2 Trafododd yr Aelodau'r papur cwmpasu a chytuno arno. Pwysleisiodd yr Aelodau hefyd ei bod yn bwysig canolbwyntio ar y meysydd y mae gan Gymru cymhwysedd deddfwriaethol ynddynt.

### Eitem 3: Ystyried a chytuno ar adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar y Gyllideb

3.1 Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar Gyllideb Ddrafft materion gwledig 2008/09.

3.2 Trafododd yr Aelodau'r adroddiad a chytuno arno, yn amodol ar ddileu argymhelliad 8.

### Eitem 4: Y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn craffu ar y Gyllideb

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, ynghyd â'i swyddogion i'r cyfarfod gan ofyn iddi gyflwyno'i sylwadau agoriadol mewn perthynas â'r blaenoriaethau cynaliadwyedd yng Nghyllideb Ddrafft 2008/09. Gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau a chwestiynau gan yr Aelodau.

4.2 Cytunodd y Gweinidog i egluro'r llinellau gwariant i'w defnyddio fel arian cyfatebol yng nghyswllt y gronfa cydgyfeirio, a byddai hefyd yn egluro'r cynnydd yng nghyllideb yr Arolygiaeth Gynllunio. Yn ogystal â hyn, cytunodd y Gweinidog i baratoi nodyn esboniadol ynghylch y gwahaniaethau a ddaeth i'r amlwg rhwng ffigyrau Cyllideb Ddrafft 2008/09 a'r ffigyrau a oedd gan y Gweinidog, ynghyd â manylion cyllideb Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

### Eitem 5: Ymchwiliad i leihau gollyngiadau carbon

5.1 Croesawodd y Cadeirydd Jocelyn Davies AC, y Dirprwy Weinidog dros Dai. Gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau a chwestiynau gan yr Aelodaumewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor i leihau gollyngiadau carbon yn y sector preswyl yng Nghymru.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai a'r Dirprwy Weinidog dros Dai gan ofyn iddynt ymateb yn ysgrifenedig i'r cwestiynau na chafwyd atebion iddynt yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar leihau gollyngiadau carbon.